

Diweddariad gan CBAC ar drefniadau Cyfres Haf 2020 - cymwysterau TAG, TGAU a'r Dystysgrif Her Sgiliau a gymeradwyir gan Cymwysterau Cymru

28 Ebrill, 2020

Yn ein hymateb i gyhoeddiad Cymwysterau Cymru [Gwybodaeth i Ganolfannau ar gyflwyno Graddau Asesu Canolfannau ar gyfer cyfres haf 2020](#), dywedwyd y byddai manylion pellach ar gael am broses ddyfarnu'r haf ar ôl y Pasg.

Yn ystod y cyfnod hynod heriol hwn, bydd llawer yn digwydd i amharu ar ysgolion a cholegau gan achosi anawsterau. Ein bwriad ni wrth ryddhau'r diweddariad hwn felly yw rhannu cymaint o wybodaeth ag sy'n bosibl ar hyn o bryd. Ond, mewn rhai meysydd, ni allwn rannu gwybodaeth fanwl ar hyn o bryd nes i Cymwysterau Cymru roi adborth ar ei ymgynghoriad [Trefniadau ar gyfer cyfres haf 2020](#) sy'n cau ar 13 Mai. Yn y cyfamser, mae CBAC yn gweithio'n agos gyda Cymwysterau Cymru i sicrhau bod y ddau gorff yn gweithredu'n gyson â'i gilydd.

Bydd CBAC yn rhannu gwybodaeth bellach wedi'i diweddaru ag ysgolion a cholegau cyn gynted â phosibl.

1. Paratoi Graddau Asesu Canolfannau a threfnau rhestrol

Anogir ysgolion a cholegau i ddechrau paratoi i gyflwyno Graddau Asesu Canolfannau a threfnau rhestrol ar gyfer y cymwysterau TGAU, UG, Safon Uwch a'r Dystysgrif Her Sgiliau i fyfyrwyr a gofrestrwyd am arholiadau haf 2020.

2. Cyflwyno Graddau Asesu Canolfannau a threfnau rhestrol

Yn yr wythnosau i ddod, bydd CBAC yn cysylltu ag ysgolion a cholegau i roi gwybodaeth bellach iddyn nhw. Y dyddiad y bydd modd cychwyn nodi Graddau Asesu Canolfannau yw 1 Mehefin 2020.

Bydd CBAC yn darparu'r canlynol:

- manylion ar sut i fewnbynnu graddau ymgeiswyr a threfnau rhestrol i'r system gasglu ar gyfer safoni, drwy wefan ddiogel CBAC.
- y dyddiad cau terfynol ar gyfer cyflwyno.

Bydd CBAC yn gofyn am y wybodaeth ganlynol i bob cymhwyster:

- Gradd Asesu Canolfannau i bob ymgeisydd
- trefn restrol o ymgeiswyr o fewn pob gradd gan ddechrau â'r ymgeisydd mwyaf galluog ar bob gradd; dylai bob pwnc gael un drefn restrol, hyd yn oed os oes myfyrwyr mewn grwpiau blwyddyn gwahanol. Hefyd mae angen cynnwys cymwysterau unedol haenol (e.e. TGAU gwyddorau, ITM, Llenyddiaeth Saesneg, ac ati)
- yn achos TGAU Mathemateg a Mathemateg-Rhifedd llinol haenol, dylai ysgolion a cholegau ddarparu Graddau Asesu Canolfannau sy'n adlewyrchu'r radd a bennwyd ar gyfer haen gofrestru ymgeisydd (h.y. mae graddau A* i C ar gael ar gyfer yr Haen Uwch; B i E ar gyfer yr Haen Ganolradd a D i G ar gyfer yr Haen Sylfaenol)
- dylid defnyddio'r raddfa graddau A*-A* i G-G ar gyfer y TGAU gwyddoniaeth dwyradd
- dylai Graddau Asesu Canolfannau gynnwys 'U' (heb radd) lle y bo'n briodol gwneud hynny

Mae'r graddau a'r trefnau rhestrol yn **gyfrinachol. Ni ddylid eu rhannu o gwbl â myfyrwyr, rhieni/gwarcheidwaid, nac unrhyw un arall y tu allan i'r ganolfan.**

Wrth ffurfio eu barn, bydd athrawon am ystyried, lle bo hynny ar gael, amrediad o dystiolaeth fel ffug arholiadau, asesiadau di-arholiad, aseiniadau a chofnodion eraill o berfformiad. Dylid cyfeirio at ddogfen [Gwybodaeth i Ganolfannau](#) Cymwysterau Cymru am fanylion pellach.

Nid oes angen o gwbl ystyried gwaith a gyflawnwyd ar ôl cau'r ysgolion a cholegau ar 20 Mawrth. Cyngorir athrawon i beidio ag ystyried gwaith o'r fath a gynhyrchwyd ar ôl y dyddiad hwn. Mae hyn yn arbennig o bwysig os bydd newid i'w weld mewn perfformiad y gallai cyd-destun ymgymryd â'r gwaith fod yn esboniad amdano.

Bydd arweiniad pwnc-benodol ar gael i athrawon ar [wefan ddiogel CBAC](#).

Bydd angen i Swyddogion Arholiadau roi'r mynediad perthnasol at wefan ddiogel CBAC er mwyn i athrawon allu mewnbynnu'r wybodaeth angenrheidiol ac i Bennaethiaid Canolfannau allu cyflwyno'r datganiad terfynol.

3. Ystyriaeth arbennig a threfniadau mynediad ar gyfer haf 2020

Ni fydd CBAC yn defnyddio unrhyw addasiadau o ran ystyriaethau arbennig na threfniadau mynediad eleni. Dylai ysgolion a cholegau gyflwyno Gradd Asesu Canolfannau sy'n rhoi sylw i unrhyw drefniadau mynediad wedi'u cymeradwyo wrth ystyried yr hyn y byddai ymgeisydd wedi'i gyflawni pe byddai addasiad wedi'i ddefnyddio. Cyngorir athrawon i gysylltu ag athrawon arbenigol perthnasol ymgeiswyr sydd â threfniadau mynediad wedi'u cymeradwyo, lle y bo'n briodol gwneud hynny.

4. Gwrthdaro Buddiannau

Cyfrifoldeb Pennaethiaid Canolfannau yw rheoli unrhyw wrthdaro buddiannau posibl o ran cyflwyno Graddau Asesu Canolfannau a gwybodaeth am drefn restrol. Enghraifft o hyn fyddai achos lle mae aelod o staff y ganolfan yn ymwneud â pharatoi graddau asesu canolfannau ar gyfer aelod o'r teulu.

Rhaid i Bennaeth y Ganolfan sicrhau bod cofnodion yn cael eu cadw o unrhyw wrthdaro buddiannau posibl a sut y gweithredwyd i liniaru'r sefyllfa. Os yw'r gwrthdaro buddiannau posibl yn ymwneud â Phennaeth y Ganolfan ei hun, dylid defnyddio'r drefn arferol ar gyfer casglu datganiadau o fuddiannau staff canolfannau. Dylid hysbysu CBAC cyn cyflwyno unrhyw ddeunydd.

5. Ymgeiswyr wedi'u Trosglwyddo

Os bydd achos lle trosglwyddodd ymgeisydd o un ysgol neu goleg i un arall ran o'r ffordd drwy ei astudiaethau, efallai yr hoffai Pennaeth y Ganolfan bresennol gysylltu â'r ganolfan flaenorol i drafod pa dystiolaeth sydd ganddyn nhw. Efallai y bydd hyn yn cael ei ystyried wrth ffurfio barn os ydyn nhw'n hyderus i wneud hynny.

Fe wyddwn fod rhai canolfannau'n gweithio mewn partneriaeth, fel consortiwm, er mwyn darparu cymwysterau ar gyfer eu myfyrwyr. Bydd arweiniad pellach ar gael i ganolfannau o'r fath yn nes ymlaen ym mis Mai.

6. Llofnodi Graddau Asesu Canolfannau a threfnau rhestrol yn derfynol

Rhaid i ddau o athrawon y pwnc a Phennaeth y Ganolfan lofnodi pob gradd a threfn restrol cyn eu cyflwyno i'r byrddau arholiadau:

- rhaid i ddau o athrawon y pwnc, y mae'n rhaid i un ohonyn nhw fod yn Bennaeth yr Adran, lofnodi'r Graddau Asesu Canolfannau a'r drefn restrol (neu os oes dim ond un athro ar gael, y Pennaeth Adran)
- rhaid i Bennaeth y Ganolfan lofnodi'r Radd Asesu Canolfannau a'r drefn restrol, gan ddatgan bod y wybodaeth yn gywir ac yn gynrychioliad gwirioneddol o berfformiad myfyriwr. (Os nad yw Pennaeth y Ganolfan ar gael, gall ddirprwyo'r dasg). Bydd rhagor o fanylion ar gael gan CBAC ynghylch cyflwyno'r datganiad hwn yn rhan o gyflwyno Graddau Asesu Canolfannau.

Unwaith bydd y data wedi'u cwblhau, a datganiad Pennaeth y Ganolfan wedi'i gyflwyno, ni fydd yn bosibl cyflwyno unrhyw newidiadau pellach i gofrestrïadau.

7. Ymgeiswyr preifat

Yn ymgynghoriad Cymwysterau Cymru cynigir y gall Graddau Asesu Canolfannau a gyflwynir gan ysgolion a cholegau gynnwys ymgeiswyr preifat. Dim ond os yw Pennaeth y Ganolfan yn hyderus bod digon o dystiolaeth o gyflawniad yr ymgeisydd i allu ffurfio barn wrthrychol y gellir gwneud hyn.

Mae hyn yn golygu bod angen rhoi ymgeiswyr preifat yn nhrefn restrol y ganolfan gyda'r ymgeiswyr eraill, pan fyddant wedi'u cynnwys. Rhaid defnyddio'r un broses safoni ar gyfer **pob** ymgeisydd a gyflwynir gan y ganolfan.

Mae angen i Bennaeth y Ganolfan fod yr un mor hyderus yn y Radd Asesu Canolfannau a'r drefn restrol a gyflwynir mewn perthynas ag ymgeiswyr preifat ag y mae o ran yr hyn a gyflwynir ar gyfer pob ymgeisydd arall.

Mewn rhai achosion, gall ymgeiswyr preifat fod wedi astudio gyda chanolfan gymeradwyedig, darparwr dysgu o bell er enghraifft, ond wedi cofrestru mewn canolfan wahanol, megis ysgol neu goleg lleol. Yn yr achosion hyn, byddai'n synhwyrol i'r ganolfan sydd â'r rhan fwyaf o'r dystiolaeth o gyflawniad tebygol yr ymgeisydd i fod yn gyfrifol am gyflwyno Gradd Asesu Canolfannau ar ei gyfer ac i'w gynnwys yn ei threfn restrol. Mewn rhai achosion, bydd angen trosglwyddo'r cofrestriad o un ganolfan i'r llall. Os felly, dylai'r ganolfan sy'n bwriadu cyflwyno'r Radd Asesu Canolfannau gyflwyno cofrestriad newydd ar ran yr ymgeisydd a gofyn i'r ganolfan wreiddiol dynnu ei chofrestriad yn ôl. Dim ond ar ôl ymgynghori â'r ganolfan wreiddiol a'r ymgeisydd y dylid gwneud hyn.

Rydyn ni, ynghyd â Cymwysterau Cymru, yn ystyried ymhellach y trefniadau hynny'n ymwneud ag ymgeiswyr preifat heb unrhyw berthynas bresennol â chanolfan neu ddarparwr dysgu o bell a ymrestrwyd gyda chanolfan. Yn anffodus, mae'n bosibl y bydd rhaid i rai ymgeiswyr preifat sefyll arholiadau haf nesaf er mwyn cael eu graddau. Bydd mwy o wybodaeth ar gael am hyn cyn 4 Mai.

8. Asesiadau di-arholiad ac asesiadau dan reolaeth (ar gyfer cymwysterau THS)

Nid oes angen i fyfyrwyr gwblhau Asesiadau Di-arholiad nac asesiadau dan reolaeth eleni ac ni ddylid anfon marciau unrhyw asesiadau di-arholiad neu asesiadau dan reolaeth a gwblhawyd i CBAC.

Mewn achosion lle cwblhawyd asesiadau di-arholiad ac/neu asesiadau dan reolaeth, ni ddylid rhoi eu marciau i'r ymgeiswyr. Hefyd, ni fydd CBAC yn darparu marciau i ysgolion a cholegau sy'n deillio o unrhyw weithgareddau cymedroli/asesu canolfannau.

Ond, dylai ysgolion a cholegau gadw'r gwaith o asesiadau di-arholiad/asesiadau dan reolaeth ymgeiswyr.

9. Cofrestriadau

Mae CBAC yn gofyn i bob canolfan adolygu ei chofrestriadau er mwyn sicrhau bod pob ymgeisydd sy'n disgwyl gradd am gymhwyster yr haf hwn wedi'i gofrestru. O ran cymwysterau unedol, rhaid cofrestru pob ymgeisydd am yr holl unedau priodol a **hefyd am y 'cyfnewid'**. Ni fydd unrhyw ymgeisydd sydd heb gofrestriad cyfnewid ar gyfer haf 2020 **yn derbyn gradd am y cymhwyster. Gofynnwn i chi beidio â thynnu unrhyw gofrestriadau am unedau yn ôl yn achos ymgeiswyr yr haf hwn** (e.e. cofrestriadau am unedau ar gyfer ymgeiswyr blwyddyn 10). Mae hyn er mwyn gwneud y broses yn hylaw i ganolfannau ac i CBAC. **Ni chodir ar ganolfannau am gofrestriadau am unedau yr haf hwn** gan na fyddwn yn rhyddhau'r canlyniadau haf 2020 i'r ymgeiswyr hynny. Hefyd, ni fydd y cofrestriadau hynny'n cyfrif tuag at unrhyw reolau 'dechrau o'r newydd'. Gellir cyflwyno newidiadau i gofrestriadau hyd at **20 Mai**. Ni ellir cyflwyno unrhyw newidiadau pellach ar ôl y dyddiad hwnnw. Y wybodaeth am gofrestriadau fydd sail y wybodaeth a ddarperir gan CBAC i'r canolfannau o ran mewnbwnu eu Graddau Asesu Canolfannau a'r wybodaeth am drefn restrol.

10. Camymddwyn

Mae CBAC yn gwybod y bydd mwyafrif llethol yr ysgolion a'r colegau'n gwneud eu gorau glas i sicrhau eu bod yn cyflwyno Graddau Asesu Canolfannau a threfnau rhestrol sy'n adlewyrchiad cwbl deg a gwirioneddol o'r graddau y byddai ymgeiswyr yn fwyaf tebygol o fod wedi'u cyflawni pe byddent wedi sefyll eu harholiadau'n ôl y bwriad.

Gall fod rhai achosion lle gall ysgolion a cholegau, neu athrawon, fod dan bwysau allanol gan ymgeisydd neu ei riant/gwarcheidwad i ddylanwadu ar y broses o wneud penderfyniadau ynghylch gradd neu drefn restrol. Os bydd unrhyw bwysau allanol o'r fath yn digwydd rhaid cyflwyno adroddiad i CBAC am y mater. Mae'n bosibl y bydd CBAC yn ymchwilio hyn fel achos o gamymddwyn posibl ar ran ymgeisydd.

Yn ymgynghoriad Cymwysterau Cymru, cynigir na ddylai ysgolion a cholegau ryddhau gwybodaeth am Raddau Asesu Canolfannau a gwybodaeth am drefn restrol i ymgeiswyr, i rieni/gwarcheidwaid, nac i unrhyw unigolyn arall y tu allan i'r ganolfan, cyn y diwrnodau canlyniadau. Yn unol â chynigion Cymwysterau Cymru, bydd CBAC yn ymchwilio i unrhyw dorri cyfrinachedd fel achos o gamymddwyn neu gamweinyddu posibl.

Hefyd, ni ddylai ysgolion a cholegau gyflwyno canlyniadau maen nhw'n ymwybodol sy'n anghywir na chofrestru unrhyw ymgeisydd nad oedd yn wreiddiol am ardystio yng nghyfes haf 2020.

11. Safoni

Bydd CBAC yn ymgymryd â phroses o safoni. Gwneir hyn er mwyn sicrhau bod graddau'n deg ar draws yr holl ysgolion a cholegau ac yn cyfateb fwy neu lai i rai blynyddoedd blaenorol. Mae CBAC wrthi'n datblygu'r broses hon dan oruchwyliaeth Cymwysterau Cymru sy'n ymgynghori ar y nodau sylfaenol. Caiff pob canolfan ei hystyried yn rhan o'r broses hon gan gynnwys ysgolion a cholegau newydd sydd heb unrhyw ddata cyflawniad blaenorol neu sydd â chofrestriadau bach. Unwaith y bydd Cymwysterau Cymru wedi cymeradwyo a chytuno ar y broses derfynol i'w defnyddio i safoni, bydd CBAC yn rhannu manylion pellach.

12. Diwrnodau canlyniadau

Yn ôl y bwriad, cyhoeddir y canlyniadau i fyfyrwyr ym mis Awst o 08.00 ar y dyddiau canlynol:

- dydd Iau 13 Awst ar gyfer canlyniadau UG a Safon Uwch, CPE a Thystysgrif Her Sgiliau Uwch
- dydd Iau 20 Awst ar gyfer canlyniadau TGAU a Thystysgrif Her Sgiliau Sylfaen/Cenedlaethol

Fel yn y gorffennol, cyhoeddir canlyniadau canolfannau cyfan i Bennaeth y Ganolfan a'r swyddogion arholiadau gan CBAC y diwrnod cyn y dyddiadau hyn. Gall y canolfannau wedyn baratoi'n weinyddol ar gyfer rhyddhau canlyniadau i fyfyrwyr. Byddwn yn rhannu data canlyniadau ag UCAS yn ôl yr arfer.

13. Apeliadau

Mae Cymwysterau Cymru wrthi ar hyn o bryd yn ymgynghori ar broses apeliadau i ysgolion a cholegau. Bydd gwybodaeth bellach ar gael cyn gynted â phosibl.

Ni fydd y gwasanaethau ar ôl y canlyniadau safonol megis Dychwelyd Sgriptiau, adolygiadau o farcio ac adolygiadau o gymedroli yn weithredol eleni.

14. Diolch yn fawr

Yn yr amgylchiadau digynsail sy'n bodoli eleni mae'r broses ddyfarnu'n mynd i fod yn gwbl wahanol ac yn golygu sawl her i ysgolion a cholegau. Hoffem ddiolch i Bennaethiaid Canolfannau, swyddogion arholiadau ac athrawon ymlaen llaw am eu proffesiynoldeb, eu gwaith caled a'u cefnogaeth. Hyn oll fydd yn ei gwneud yn bosibl i ddyfarnu graddau i ymgeiswyr, er mwyn iddyn nhw allu symud ymlaen â'u bywydau a'r dysgu.

Dylai ysgolion a cholegau gysylltu â CBAC am gymorth os oes ganddyn nhw unrhyw bryderon. Mae manylion cyswllt arbenigwyr pwnc ar gael ar [dudalen we pob cymhwyster](#) ac mae cysylltau defnyddiol eraill i'w gweld [yma](#).